GWEINIDOGAETHU YN YNYS MÔN



Wrth i'r Eisteddfod ddychwelyd i Ynys Môn, mae'n dod i ardal gyfoethog ei hanes Cristnogol. Ond beth am y presennol? Diolch i Hywel Meredydd am gael sgwrs â Cynan i ddweud rhagor.

Beth wyt ti'n ei wneud ar Ynys Môn?

Er 1980 rwyf wedi cael y fraint o wasanaethu'n Weinidog yng Nghapel Cildwrn Llangefni, lle bu Christmas Evans yn gweinidogaethu rhwng 1789 a 1826. Roedd un ar bymtheg ohonom yn frwdfrydig i sefydlu Eglwys Efengylaidd Llangefni ac agor yr hen gapel a fu'n wag ers dros ganrif. Rwyf hefyd yn gweithio ar draws Cymru yn Rheolwr Partneriaethau ag Eglwysi i'r elusen *Tearfund*. Byddaf yn gweithio gyda gweinidogion yn bennaf i annog gweddi a chefnogaeth ariannol i drigain o wledydd tlawd y byd.

Sut y gwnest di gyrraedd yno?

Tua diwedd fy nghyfnod yn Ysgol Gyfun Rhydfelen roeddwn yn ymwybodol o alwad i'r weinidogaeth a hynny drwy sefydlu gydag eraill eglwys newydd. Daeth y dyhead hwn yn bennaf o gofio yn fy arddegau fy nhad (y diweddar J. Elwyn Davies) yn rhannu gyda fy mam nad oedd neb yn ymateb nac yn cymryd rhan yn y cyfarfod gweddi yn y capel. Fe ddes i'r casgliad os nad oedd dyn duwiol fel fy nhad yn cael ymateb, go brin y byddai dyfodol imi mewn enwadaeth gyfundrefnol. Yr un pryd roedd galwad Dr Martyn i sefydlu eglwysi newydd yn her real iawn.

Astudiais i ddiwinyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor a Choleg Bala Bangor am wyth mlynedd. Profwyd bendith sylweddol yng nghanol y saithdegau ymhlith y myfyrwyr a braint oedd Cadeirio'r Undeb Cristnogol yn nwy flynedd gyntaf ei fodolaeth. Yn sgil y fendith cychwynnwyd Ysgol Sul yn Ebeneser ar gyfer myfyrwyr a rhai Cristnogion ifanc o Ynys Môn yn mynychu.

Ar y pryd roedd pymtheg yn teithio o Ynys Môn i addoli yn Ebeneser Bangor ar y Sul a gofynnwyd imi arwain cyfarfod gweddi i ystyried y posibilrwydd o ddechrau eglwys newydd ar Ynys Môn. Ar ôl cyfarfod i weddïo am flwyddyn roedd yn amlwg inni mai sefydlu eglwys newydd oedd dymuniad yr Arglwydd ar ein cyfer a gwnaethpwyd cais i Gymanfa Bedyddwyr Môn am gael defnyddio'r hen gapel. Ers y cychwyn rydym yn ddiolchgar iawn i'r Bedyddwyr am eu cefnogaeth hael.

A yw pobl yr ynys yn ymwybodol o draddodiad Cristnogol yr ynys?

Mae gan Sir Fôn draddodiad Cristnogol cyfoethog iawn o gyfnod y seintiau cynnar hyd enwogion megis John Elias a Christmas Evans yn Llangefni a'r diwygiwr Richard Owens yn Llangristiolus, ond prin yw'r ymwybyddiaeth leol o'r traddodiad. Er bod plant yr ysgolion sy'n ymweld â Chapel Cildwrn yn mwynhau'r hanesion, bellach dim ond ymwelwyr tramor sy'n dod ar bererindod i agor pydewau'r gorffennol am ysbrydoliaeth.

Beth sydd wedi newid yn Ynys Môn?

Mae'r economi leol wedi newid, gyda thoriadau yn y sector cyhoeddus megis swyddi mewn llywodraeth leol ac addysg. Hefyd, er gwaethaf buddsoddiad sylweddol Amcan 1 o Ewrop mae lefel diweithdra yn uchel. Gydag un o bob tri o bobl ifanc yr Ynys yn gadael mae cynllunio gwaith plant a phobl ifanc yn gallu bod yn rhwystredig.

'Rwyf wedi profi ffyddlondeb yr Arglwydd er fy aml wendidau'

Rwy'n cofio gweinidogaethu yn Indiana yr Unol Daleithiau mewn ardal ddiwydiannol gyda thair cenhedlaeth yn eithaf sefydlog yn y capel – teidiau a neiniau, rhieni a phlant – roedd gweld yr eglwys gyflawn yn addoli yn galondid. Gwaetha'r modd mae'n anodd gweld hynny yn digwydd yn y Gymru wledig gyda thynfa'r dinasoedd yn cyfareddu ein pobl ifanc. Mae mewnlifiad hefyd wedi cynyddu, gyda nifer o Gristnogion o Loegr yn symud yma ond heb setlo mewn eglwysi lleol. Trist hefyd yw gweld cynifer o gapeli ac eglwysi yn cau yn gyson. Fedra i ond edmygu dygnwch a ffyddlondeb y rhai fu'n driw i'w haddoldai, ond bellach mae fel petai'r gannwyll yn diffodd o bentref i bentref.

Pa fendithion wyt ti wedi'u cael yno?

Mae gweld perthnasedd Gair Duw i fywydau pobl ac yn ateb anghenion unigolion yn fendith ac yn gymorth i gadw ein gobaith yn yr Iesu. Rwyf wedi profi ffyddlondeb yr Arglwydd er fy aml wendidau ar hyd y blynyddoedd. Mae cael myfyrio ac agor y Gair yn wythnosol ac arwain cyfarfod gweddi, fel y mae ymweld ag aelodau a chyfeillion y fro, yn her gyson. Fedrai ddim cyfleu mewn geiriau maint fy ngwerthfawrogiad am deyrngarwch y saint ffyddlon am bron i ddeugain mlynedd. Bendith arall oedd priodi fy ngwraig Carys yn 1980, magu Bethan Haf a Gwawr Esyllt a chael rhieni yng nghyfraith arbennig o hael a doeth. Fel beiciwr brwd rwy'n mwynhau creadigaeth yr Arglwydd megis golygfeydd ysblennydd yr ynys ond fel cerddwr mynyddoedd cyson mae'n rhaid imi groesi'r bont i fwynhau gogoniannau Eryri!

Pa heriau wyt ti wedi'u cael yno?

• Mae dal ati i ddal ati bob tro yn her, ac rwyf ond yn medru parhau wrth gofio fy mod yng Nghrist yn greadigaeth newydd a bod y weinidogaeth yn eiddo iddo ef.

• Her arall yw edrych allan i wasanaethu cymuned anghenus, mae hi bob tro'n haws troi'n fewnblyg a hunanol.

• Mae'r ffaith bod nifer helaeth yn croesi afon Menai i addoli ar y Sul, pryd y gallant fod yn gymaint o gaffaeliad i eglwysi'r ynys yn siomedigaeth.

• Dros y blynyddoedd mae'n syndod cymaint o Gristnogion sydd wedi dod i fyw i'r ynys o bell gan broffwydo fod bendith yn siŵr o'u dilyn, ond i'w gweld yn eu tro yn cefnu ar y ffydd.

• Mae Cristnogion nad ydyn nhw'n dymuno bod yn rhan o eglwys yn sialens imi hefyd.

• Rydym yn gapel sy'n darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith ac mae hyn hefyd yn her.

Beth yw dy obeithion di am y gwaith ar yr ynys?

Y gwelwn ni fendith a phresenoldeb yr Arglwydd eto ar ei bobl ac y caf ras i gadw'n ffyddlon a byw yn ffrwythlon. Gweddïaf y gallwn ni fel aelodau Capel Cildwrn gyrraedd allan gyda newyddion da'r efengyl yn enillgar ac o dan eneiniad y nef.